OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 No. 2560

## Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000

**Cymhellion i bersonau ddilyn hyfforddiant athrawon**

**3.**—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol dalu grantiau o dan y rheoliad hwn yn gymhellion i bersonau cymwys ddilyn cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon.

(2) Mae'r pŵer a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan baragraff (1) uchod yn cynnwys pŵer i dalu grant i berson cymwys os yw'r person hwnnw –

(a) wedi cwblhau cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant cychwynnol athrawon yn llwyddiannus mewn sefydliad yn Lloegr;

(b) wedi cael swm llawn unrhyw randaliadau grant a oedd yn daladwy mewn perthynas â'r cyfnod pryd yr oedd yn dilyn y cwrs o dan unrhyw drefniadau a oedd yn berthnasol yn Lloegr y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni eu bod yn cyfateb i'r trefniadau a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn; ac

(c) wedi ymgymryd â swydd addysgu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.

(3) Ym mharagraffau (1) a (2), ystyr "cymwys" yw cymwys i gael cymorth i fyfyrwyr o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**).

(**1**) 1998 p.30; Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2000 (O.S. 2000/1121) yw'r Rheoliadau cyfredol.